Estyn

Rhagoriaeth i bawb ~ Excellence for all

Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg
a Hyfforddiant yng Nghymru

Her Majesty's Inspectorate
for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Ysgol Gynradd Gymunedol Llechyfedach
# Y Tymbl Uchaf
# Llanelli
# Sir Gaerfyrddin
# SA14 6DT

## Dyddiad yr arolygiad: Hydref 2012

## gan

## Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

**Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?**

**Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?**

**Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?**

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol yr ysgol a'i rhagolygon gwella.

Yn yr arfarniadau hyn, mae'r arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

| **Barn** | **Yr hyn mae'r farn yn ei olygu** |
|---|---|
| **Rhagorol** | Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Mae cryfderau'n gorbwyso'r meysydd i'w gwella |
| **Anfoddhaol** | Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwyso'r cryfderau |

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.gov.uk

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.gov.uk

**Ⓗ Hawlfraint y Goron 2012: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

**Dyddiad cyhoeddi: 11/12/2012**

## Cyd-destun

Lleolir Ysgol Gynradd Llechyfedach ym mhentre’r Tymbl Uchaf yng Nghwm Gwendraeth. Darperir addysg cyfrwng Cymraeg ar gyfer disgyblion rhwng 4 a 11 mlwydd oed. Derbynnir 85% o’r disgyblion o ddalgylch yr ysgol a’r gweddill o’r tu allan. Datgan yr ysgol bod y disgyblion yn cael eu tynnu o ardal sydd yn cynnwys grwpiau helaeth o rai breintiedig a difreintiedig.

Mae 113 o ddisgyblion ar y gofrestr. Mae 20% o’r disgyblion yn derbyn cymorth ar gyfer anghenion dysgu ychwanegol ac mae hyn yn is na’r ffigwr cenedlaethol. Mae datganiad o anghenion ychwanegol gan un disgybl ac ni chofnodwyd unrhyw waharddiadau parhaol na thros dro ers mis Medi. Caiff 15% ginio ysgol am ddim, sydd yn is na’r ffigwr cenedlaethol.

Addysgir y disgyblion mewn pum dosbarth, pedwar ohonynt o oed cymysg. Daw tua 42% o gartrefi lle siaredir Cymraeg, ond 6% yn unig yn y dosbarth derbyn; Saesneg yw iaith cartref y gweddill.

Arolygwyd yr ysgol ddiwethaf ym mis Tachwedd 2006. Penodwyd y pennaeth ym mis Medi 1988.

Mae'r gyllideb ysgol unigol fesul disgybl ar gyfer Ysgol Gynradd Llechyfedach yn 2011-2012 yn £3,316 fesul disgybl. Yr uchafswm fesul disgybl yn ysgolion cynradd Sir Gaerfyrddin yw £18,947 a'r lleiafswm yw £3,114. Mae Ysgol Gynradd Llechyfedach yn safle 81 o'r 110 ysgol gynradd yn Sir Gaerfyrddin o safbwynt y gyllideb ysgol fesul disgybl.

## Crynodeb

| | |
|---|---|
| **Perfformiad presennol yr ysgol** | **Da** |
| **Rhagolygon gwella'r ysgol** | **Digonol** |

### Perfformiad presennol

Mae'r ysgol hon yn dda oherwydd:

- bod y rhan fwyaf o'r disgyblion yn gwneud cynnydd da yn ystod eu cyfnod yn yr ysgol;
- y profiadau dysgu da a ddarperir;
- bod yna ethos gofalgar sy'n sicrhau bod bron bob disgybl yn mwynhau dysgu ac yn teimlo'n ddiogel; a
- bod y ddarpariaeth yn hyrwyddo ymwybyddiaeth y disgyblion o'u hetifeddiaeth a'u hardal leol yn effeithiol.

### Rhagolygon gwella

Mae'r rhagolygon gwella yn ddigonol oherwydd:

Er bod:

- pob un o'r staff yn rhannu gweledigaeth sy'n canolbwyntio ar wella deilliannau ar gyfer y disgyblion;
- yr ysgol yn rhoi sylw da i flaenoriaethau lleol a chenedlaethol;
- ethos gofalgar, hapus wedi ei greu;
- perthynas dda gyda'r rhieni a defnydd da o'r gymuned; a
- bod y cynllun ysgol yn cynnwys blaenoriaethau priodol.

Fodd bynnag;

- nid yw gwybodaeth asesu yn cael ei defnyddio'n ddigon da bob amser er mwyn i ddisgyblion wybod sut i wella eu gwaith ac i athrawon olrhain cynnydd disgyblion yn fwy effeithiol;
- nid yw arweinwyr a rheolwyr yn monitro perfformiad yr ysgol yn ddigon trylwyr;
- nid yw'r broses hunanarfarnu wedi'i datblygu'n effeithiol;
- nid yw monitro gwersi yn ffocysu'n ddigon da ar godi safonau;
- nid yw rôl y llywodraethwyr fel cyfeillion beirniadol yr ysgol wedi datblygu'n llawn; ac
- nid oes cynnydd digonol mewn rhai o'r materion a nodwyd yn yr arolygiad diwethaf.

## Argymhellion

A1 Datblygu mwy o gyfleoedd ar gyfer ysgrifennu yn Saesneg ar draws y cwricwlwm;

A2 sicrhau bod cynllunio yn cynnig digon o her i'r disgyblion mwyaf galluog;

A3 cryfhau agweddau ar asesu ac asesu ar gyfer dysgu;

A4 gwella ansawdd yr arweinyddiaeth a'r rheolaeth yn arbennig yn y broses o hunan-arfarnu;

A5 datblygu ymhellach rôl y corff llywodraethol fel cyfaill beirniadol; a

A6 ffurfioli'r trefniadau diogelwch ymhellach.

**Beth sy'n digwydd nesaf?**

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu sy'n dangos sut y bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion.  Bydd Estyn yn monitro cynnydd yr ysgol.

## Prif ganfyddiadau

| Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau? | Da |
|---|---|

**Safonau: Da**

Mae niferoedd bychain o ddisgyblion diwedd cyfnodau allweddol yn golygu bod angen gofal wrth ddehongli data. Mae hyn yn arbennig o wir wrth gymharu cyflawniad disgyblion sydd â hawl i ginio am ddim gyda'r gweddill ac, am yr un rheswm, cyflawniad y bechgyn gyda'r merched.

Mae'r rhan fwyaf o'r disgyblion yn canolbwyntio'n dda yn y gwersi ac yn galw eu dysgu blaenorol i gof yn effeithiol. Maent yn cydweithio'n dda ac yn ymateb yn bwrpasol i'r tasgau. Defnyddiant eu medrau meddwl ac ymchwiliol yn effeithiol i gaffael gwybodaeth newydd. Mae'r rhan fwyaf o'r disgyblion yn datblygu i fod yn ddysgwyr hyderus a gallant weithio'n effeithiol mewn parau, grŵp neu fel unigolyn i ymateb i dasg yn dda.

Yn y Cyfnod Sylfaen, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwneud cynnydd da iawn yn eu medrau llythrennedd a rhifedd. Erbyn diwedd y Cyfnod Sylfaen mae pawb yn trin a thrafod yn dda yn y Gymraeg ar draws ystod o bynciau, gan ddefnyddio geirfa eang. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn darllen ar lefel sy'n addas i'w hoed a'u gallu. Mae gwaith ysgrifenedig llawer o'r disgyblion yn y Gymraeg yn dda gydag enghreifftiau o waith da ar lefel uwch.

Mae medrau llafar disgyblion cyfnod allweddol 2 yn dda a defnyddiant iaith naturiol a graenus mewn trafodaethau ffurfiol ac anffurfiol. Mae medrau llafar Saesneg bron pob un disgybl hefyd yn datblygu'n dda a gallant drafod a mynegi barn yn eglur.

Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2 mae bron pob un yn medru darllen a deall yn ystyrlon gan ddefnyddio mynegiant da yn y ddwy iaith. Mae disgyblion yn ysgrifennu'n effeithiol ar draws ystod y cwricwlwm yn y Gymraeg, ond prin yw'r dystiolaeth eu bod yn ysgrifennu yn y Saesneg at wahanol bwrpas.

Mae medrau meddwl, rhifedd a thechnoleg gwybodaeth a chyfathrebu'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu'n dda ar draws yr ysgol.

Yn y Cyfnod Sylfaen yn 2012, mae cyflawniad y disgyblion yn dda mewn perthynas â chyrraedd y lefel ddisgwyliedig mewn medrau iaith Cymraeg, datblygiad mathemategol a phersonol (y dangosydd Cyfnod Sylfaen) ac yn well o gymharu â'r cyflawniad cenedlaethol, lleol a'r teulu. Ar y cyfan, perfformiodd y bechgyn yn well na'r merched yn 2012. Mae cyflawniad y disgyblion ar ddeilliant 6 yn is na pherfformiad y teulu ac yn genedlaethol.

Mae perfformiad disgyblion erbyn diwedd cyfnod allweddol 2 wedi amrywio dros y pedair blynedd ddiwethaf ac yn 2012 roedd cyflawniad y disgyblion mewn Saesneg, Cymraeg, mathemateg a gwyddoniaeth mewn cyfuniad (y dangosydd pwnc craidd) yn is na'r teulu a'r lefel genedlaethol. O gymharu â chyfartaleddau ysgolion tebyg mae perfformiad y disgyblion yn gyson is dros gyfnod o amser, heblaw am 2011. Nid oes patrwm amlwg ym mherfformiad y bechgyn a'r merched dros amser.

Mae'r disgyblion sydd â hawl i brydau ysgol am ddim a'r disgyblion sydd ag anghenion dysgu ychwanegol yn cyflawni'n dda ac yn gwneud cynnydd priodol i'w hoed a'u gallu.

**Lles: Da**

Mae gan y disgyblion ddealltwriaeth dda o sut i fyw a bwyta'n iach a chânt ddigon o gyfleoedd amrywiol i ymarfer corff yn rheolaidd. Mae'r disgyblion yn teimlo'n hapus a diogel iawn yn yr ysgol ac yn gwybod at bwy i droi ar unrhyw adeg o bryder.

Mae disgyblion yn cymryd diddordeb yn eu gwaith ysgol ac maent yn gweithio'n gydwybodol ac yn gytûn yn y gwersi. Mae eu hymddygiad yn dda amser chwarae, amser cinio ac yn y gwersi a dangosant barch tuag at ei gilydd a thuag at oedolion ar bob adeg. Cânt gyfle i gyfrannu syniadau'n frwdfrydig ac ymfalchïant yn y cyfle hwn i ddatblygu eu hysgol.

Mae dylanwad llais y disgyblion ar fywyd yr ysgol yn amlwg yn yr hyn a gyflawnwyd gan ddisgyblion drwy'r Cyngor Ysgol. Gwnaed penderfyniadau fel sicrhau llwyfan tu allan er mwyn creu cornel yn ddiogel. Mae datblygiad personol, cymdeithasol, ysbrydol a diwylliannol y disgyblion yn datblygu'n effeithiol.

Drwy gymryd rhan a chyfrannu at ddigwyddiadau a gweithgareddau cymdeithasol, mae ymwybyddiaeth gref gan y disgyblion o'r ardal a'r gymuned leol.

Er i ganran presenoldeb yr ysgol fod yn uwch na'r ganran ar gyfer yr Awdurdod Lleol ac ysgolion cenedlaethol a'r teulu rhwng 2007-2010, fe ostyngodd y ganran dros y ddwy flynedd ddiwethaf i 93.1% yn 2011-2012.

| **Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?** | **Da** |
|---|---|

**Profiadau dysgu: Da**

Yn gyffredinol, mae'r ysgol yn cynllunio ystod eang o brofiadau dysgu sy'n ennyn diddordeb y disgyblion ar draws yr ysgol. Mae hyn yn cynnwys ymweliadau addysgol diddorol a chreu digwyddiadau ysgogol o fewn yr ysgol ei hun, fel yr wythnos i ddathlu Blwyddyn Newydd Tsieineaidd 2012. Yn y Cyfnod Sylfaen, mae'r profiadau cyfoethog ac ysgogol yn cael effaith gadarnhaol ar ddeilliannau'r disgyblion.

Mae'r ddarpariaeth ar gyfer cyfathrebu, rhifedd a thechnoleg gwybodaeth a chyfathrebu wedi'i chynllunio'n dda yn y tymor byr ac yn cael ei hymgorffori'n gadarn ym mhrofiad bron pob un o'r disgyblion. Nid yw dwyieithrwydd wedi ei gynllunio'n effeithiol ar draws y cwricwlwm. Ar y cyfan, mae'r athrawon yn cynllunio gwaith priodol ar gyfer gallu ac oed y disgyblion, ond nid yw'r arfer hon wedi treiddio'n llawn ar draws yr ysgol.

Rhoddir lle blaenllaw i ddiwylliant lleol ac i'r dimensiwn Cymreig yng nghynlluniau'r ysgol. Mae hyn yn gryfder. Caiff y disgyblion lu o gyfleoedd i ddatblygu eu hymwybyddiaeth o'u hetifeddiaeth leol a chenedlaethol.

Mae addysg ar gyfer datblygiad cynaliadwy a dinasyddiaeth fyd-eang wedi datblygu'n effeithiol yn yr ysgol ac mae Cyngor Eco'r Ysgol yn weithgar yn hyrwyddo'r ymwybyddiaeth ymhellach. Maent wedi ennill y Faner Werdd am y trydydd tro. Cydweithia'r ysgol yn agos gydag asiantaethau allanol fel Ynni Da i gael gwell dealltwriaeth o'i defnydd o ynni. Dengys y disgyblion gonsyrn amlwg dros eraill gan godi arian yn rheolaidd at waith elusennol a dyngarol.

**Addysgu: Digonol**

Mae'r addysgu ar y cyfan yn dda ar draws yr ysgol. Mae'r athrawon yn meddu ar wybodaeth bynciol gyfoes ac yn modelu iaith yn effeithiol. Mae perthynas waith dda rhwng staff a disgyblion ac fe reolir ymddygiad yn effeithiol.

Mae amcanion gwersi wedi eu nodi'n glir. Mae'r athrawon yn holi yn fedrus ac yn ymyrryd ar adegau priodol gan roi cymorth effeithiol i unigolion a grwpiau o ddisgyblion. Defnyddir y cymorthyddion dosbarth yn llwyddiannus iawn er mwyn cefnogi disgyblion. Yn y gwersi lle mae'r addysgu yn llai effeithiol, nid yw'r tasgau dysgu bob amser yn ymateb yn effeithiol i anghenion disgyblion ac nid yw'r tasgau wedi'u gwahaniaethu i herio disgyblion mwyaf galluog.

Mae strategaethau asesu ar gyfer dysgu yn dechrau cael dylanwad positif ar safonau. Mae'r rhan fwyaf o'r athrawon yn marcio'n rheolaidd, ond nid yw'r marcio'n ddigon manwl bob amser i sicrhau bod y disgyblion yn deall sut i wella'u gwaith a'r camau nesaf. Gosodir targedau unigol i ddisgyblion, ond nid yw'r athrawon yn sicrhau eu bod yn eu defnyddio'n ddigon cyson. Mae gan yr ysgol ystod o systemau i olrhain perfformiad disgyblion, ond nid yw'r prosesau hyn wedi gwreiddio'n ddigonol eto. Mae'r adroddiadau i rieni yn cwrdd â'r gofynion.

**Gofal, cymorth ac arweiniad: Da**

Mae trefniadau effeithiol yn bodoli i gefnogi iechyd a lles disgyblion. Mae'r gofal, cymorth a'r arweiniad yn hyrwyddo datblygiad personol disgyblion yn effeithiol iawn, gan gynnwys eu datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol.

Mae'r ysgol yn adnabod disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol yn gynnar trwy drafodaethau staff. Rhoddir cynhaliaeth briodol iddynt trwy'r bartneriaeth waith effeithiol rhwng yr athrawon a'r cymorthyddion dysgu. Mae disgyblion ag anghenion penodol yn derbyn rhaglenni addas ar eu cyfer dair gwaith y flwyddyn, sy'n sicrhau eu bod yn gweithio tuag at eu targedau er mwyn gwneud cynnydd i symud ymlaen i'r camau nesaf yn eu dysgu. Mae gan yr ysgol bolisi disgyblion abl a thalentog, ond nid yw'r ysgol wedi dechrau adnabod y disgyblion hyn.

Gwneir defnydd effeithiol o gymorth gwasanaethau arbenigol allanol, gan gynnwys y gwasanaethau seicolegydd addysg a therapydd iaith.

Mae trefniadau'r ysgol ar gyfer diogelu disgyblion yn bodloni gofynion ac nid ydynt yn destun pryder. Mae gan yr ysgol weithdrefnau addas ar gyfer gwirio addasrwydd staff ac eraill sydd mewn cysylltiad â phlant. Serch hynny, mae lle i'r ysgol ffurfioli rhai agweddau ar ei threfniadau diogelu ymhellach.

**Yr amgylchedd dysgu: Da**

Mae ethos cynhwysol iawn yn yr ysgol. Mae yma gymuned Gymreig, groesawus a chartrefol iawn ble mae pawb yn awyddus i helpu a chefnogi ei gilydd. Caiff pob plentyn ei drin yn deg a gyda pharch. Mae gweithdrefnau'r ysgol yn eu lle i sicrhau cyfle cyfartal i bob disgybl ac maent yn hybu cydraddoldeb ac amrywiaeth cymdeithasol. Dengys y disgyblion ddealltwriaeth aeddfed o'u cyfrifoldeb tuag at ei gilydd ac eraill.

Mae'r ysgol ar safle braf a defnyddir y tir yn bwrpasol ar gyfer chwarae a dysgu. Datblygwyd y safle allanol yn effeithiol iawn dros y blynyddoedd diwethaf i symbylu'r dysgu. Mae gan yr ysgol adnoddau pwrpasol a digonol i gyflwyno pob agwedd ar y cwricwlwm. Mae'r holl adeilad yn lliwgar a deniadol gydag arddangosfeydd effeithiol iawn i'w gweld ar draws yr ystafelloedd dosbarth a'r coridorau sy'n ysgogi'r dysgu. Mae'r holl adeilad mewn cyflwr da ac mae pob ardal yn lân a thaclus.

| | |
|---|---|
| **Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?** | **Digonol** |

**Arweinyddiaeth: Digonol**

Mae'r pennaeth, staff a llywodraethwyr yn gweithio'n effeithiol i feithrin ethos ysgol gyfan cynhaliol ble teimla'r disgyblion eu bod yn cael eu gwerthfawrogi. Adlewyrchir hyn yn y safonau uchel o ran lles disgyblion.

Mae gan yr ysgol ystod briodol o bolisïau rheolaethol a chwricwlaidd sy'n cael eu gweithredu'n effeithlon. Mae gan yr holl staff gyfrifoldebau a disgrifiadau swyddi clir sy'n cael eu cyflawni'n briodol. Cefnogir datblygiad proffesiynol parhaus y staff trwy system rheoli perfformiad addas sy'n gosod targedau perthnasol ar gyfer gwella unigolion.

Mae'r ysgol yn gwneud defnydd addas o ddata perfformiad i adnabod unigolion sydd angen cefnogaeth ac i osod targedau priodol ar eu cyfer. Mae'r drefn wedi ei diweddaru'n ddiweddar i gadw gwell golwg ar gynnydd disgyblion dros gyfnod.

Serch hynny, nid yw'r trefniadau monitro, gan gynnwys ymweliadau dosbarth a chraffu ar waith disgyblion, yn canolbwyntio'n ddigon penodol ar safonau a chyflawniad disgyblion.

Mae'r llywodraethwyr yn gefnogol i waith yr ysgol ac yn gynyddol ymwybodol o'u cyfrifoldebau. Cymerwyd camau priodol i gryfhau cyfraniad y corff llywodraethol o ran pennu blaenoriaethau ysgol gyfan. Maent yn dechrau defnyddio data yn fwy effeithiol, ond hyd yn hyn nid oes gan y llywodraethwyr ddealltwriaeth ddigonol o ba mor dda yw safonau ac ansawdd ar draws yr ysgol, yn enwedig o ran tueddiadau data a chymariaethau ag ysgolion tebyg. O ganlyniad, nid ydynt yn gweithredu'n effeithiol fel cyfeillion beirniadol.

Mae'r ysgol yn talu sylw priodol i nifer o flaenoriaethau cenedlaethol a lleol. Mae'r Cyfnod Sylfaen wedi ei sefydlu yn dda yn yr ysgol ac fe rhoddir sylw cynyddol i lais y plant ac mae pwyslais da ar les plant.

**Gwella ansawdd: Digonol**

Mae'r systemau hunanarfarnu wedi gwella yn ddiweddar. Erbyn hyn, mae'r prosesau yn defnyddio ystod o ffynonellau tystiolaeth addas, sy'n cynnwys archwilio samplau o waith ysgrifenedig disgyblion a siarad â'r disgyblion. Mae'r data yn cael ei ddefnyddio'n briodol i adnabod disgyblion sydd angen cefnogaeth ychwanegol ac i adnabod meysydd i'w gwella mewn perthynas â medrau sylfaenol y disgyblion. Er enghraifft, yn ddiweddar mae'r ffocws ar wella safonau llythrennedd yn cael effaith positif ar safon y gwaith ysgrifenedig.

Mae aelodau o'r staff yn monitro gwersi, ond nid yw'r monitro yn ffocysu'n ddigonol ar gynnydd y disgyblion. Hefyd, nid yw'r prosesau monitro ffurfiol yn ddigon trylwyr. Golyga hyn nad yw'r dystiolaeth sy'n bwydo'r adroddiad hunan arfarnu bob amser yn eglur ac nid oes cyfle i'r staff na'r llywodraethwyr ddylanwadu'n ddigonol ar gynnwys yr adroddiad.

Mae cynllunio ar gyfer y broses hunanarfarnu yn cael ei reoli'n briodol, ond nid yw holl agweddau gwaith yr ysgol yn cael eu harchwilio'n ddigon trylwyr. Mae trefniadau ar gyfer canfod barn ystod briodol o randdeiliaid wedi eu datblygu yn ddiweddar ond mae'n rhy gynnar i farnu pa mor effeithiol ydynt. Ar hyn o bryd nid yw'r llywodraethwyr yn derbyn digon o wybodaeth yn deillio o systemau hunanarfarnu'r ysgol i'w galluogi i chwarae rhan digon gweithredol wrth lunio'r cynllun datblygu ysgol a gosod cyfeiriad strategol i'r ysgol.

Mae'r staff wedi cael eu cynnwys mewn amrywiaeth o gyfleoedd hyfforddi a datblygu pwrpasol. Mae'r rhain yn cynnwys gweithio mewn partneriaeth gydag ysgolion a phartneriaid eraill, sy'n cynnwys y gymuned ehangach, y gwasanaeth addysg a'r awdurdod lleol.

Gwnaed cynnydd priodol wrth ymateb i fwyafrif o argymhellion yr arolygiad diwethaf, sef ynglŷn â dilyniant a pharhad wrth godi safonau mewn Cymraeg, datrys materion diogelwch a sicrhau bod prosbectws yr ysgol ac adroddiad y corff llywodraethol i'r rhieni yn cwrdd â gofynion Llywodraeth Cymru.

**Gweithio mewn partneriaeth: Da**

Mae'r ysgol yn gweithio'n llwyddiannus gyda rhieni a gofalwyr i greu partneriaethau effeithiol. Gwna'r ysgol ddefnydd dda o'r gymuned ac mae hyn yn cyfrannu'n effeithiol tuag at gynyddu dealltwriaeth disgyblion o'u hardal leol a'u hetifeddiaeth Gymreig.

Mae cyswllt da gyda'r meithrin cyfagos sydd yn bwydo'r ysgol ac mae hyn yn hwyluso trosglwyddiad esmwyth y plant. Mae trefniadau trosglwyddo llwyddiannus yn bodoli hefyd rhwng yr ysgol a'r ysgol uwchradd leol sydd yn paratoi'r disgyblion hŷn yn dda ar gyfer y cam nesaf yn eu haddysg.

Mae'r ysgol yn cydweithio'n dda gydag ysgolion eraill y clwstwr ar gyfer hyfforddiant, rhannu arfer dda ac er mwyn safoni a chymedroli asesiadau athrawon.

Mae gan yr ysgol bartneriaeth dda gyda'r awdurdod lleol sy'n hyrwyddo'r broses o ddatblygu'r ysgol ymhellach.

**Rheoli adnoddau:  Da**

Mae gan yr ysgol ddigon o staff cymwys i addysgu'r cwricwlwm yn briodol.  Mae'r cymorthyddion a'r athrawon yn cydweithio'n effeithiol i sicrhau cefnogaeth briodol i'r disgyblion.  Mae amser cynllunio, paratoi ac asesu'n cael ei ddefnyddio'n effeithiol. Yn ystod y sesiynau hyn defnyddir arbenigedd cymhorthyddion ac athrawon i addysgu meysydd penodol o'r cwricwlwm.  Defnyddir timoedd dysgu effeithiol yng nghyfnod allweddol 2.

Mae buddsoddiad yn yr adeilad wedi sicrhau amgylchedd o safon uchel i'r disgyblion. Mae gan yr ysgol ddigon o adnoddau o safon dda sy'n cael eu defnyddio'n effeithiol. Mae'r ysgol yn bodloni'r gofynion statudol yn ymwneud â baich gwaith athrawon.

Mae'r pennaeth a'r llywodraethwyr yn monitro'r gyllideb yn briodol er mwyn sicrhau cyflenwad da o adnoddau sy'n ymateb i anghenion yr ysgol.

O ystyried deilliannau'r disgyblion a monitro gofalus o'r cyllid, mae'r ysgol yn cynnig gwerth da am arian.

## Atodiad 1

**Sylwadau ar ddata perfformiad**

Yn y Cyfnod Sylfaen yn 2012, mae cyflawniad y disgyblion yn dda mewn perthynas â chyrraedd y lefel ddisgwyliedig mewn medrau iaith Cymraeg, datblygiad mathemategol a phersonol (y dangosydd Cyfnod Sylfaen) ac yn well o gymharu â'r cyflawniad cenedlaethol, lleol a'r teulu. Ar y cyfan, perfformiodd y bechgyn yn well na'r merched yn 2012. Mae cyflawniad y disgyblion ar ddeilliant 6 yn is na pherfformiad y teulu a chenedlaethol.

Mae perfformiad disgyblion erbyn diwedd cyfnod allweddol 2 wedi amrywio dros y pedair blynedd ddiwethaf. Yn 2012, roedd cyflawniad y disgyblion mewn Saesneg, Cymraeg, mathemateg a gwyddoniaeth mewn cyfuniad (y dangosydd pwnc craidd) yn is na chymedr y teulu o ysgolion. Roedd hyn hefyd yn wir mewn pedair o'r pum mlynedd ddiwethaf.

Mewn Cymraeg, mae canran y disgyblion a gyflawnodd lefel 4 neu uwch yn gyffredinol wedi bod yn is na chymedr y teulu o ysgolion mewn tair o'r pum mlynedd ddiwethaf. Mae perfformiad mewn darllen ac ysgrifennu Cymraeg wedi bod yn is na chymedr y teulu mewn tair o'r pedair blynedd ddiwethaf ac mae'r tuedd i lawr ers 2011. Mewn Saesneg, bu canran y disgyblion a gyflawnodd lefel 4 yn uwch na chymedr y teulu mewn pedair o'r pum mlynedd ddiwethaf.

Yn 2012, roedd canran y disgyblion a gyflawnodd lefel 4 mewn Cymraeg neu Saesneg, mathemateg a gwyddoniaeth mewn cyfuniad yn gosod yr ysgol ymhlith y 50% isaf o gymharu ag ysgolion tebyg o ran yr hawl i brydau ysgol ddi-dâl. Yn gyffredinol, mae perfformiad mewn Saesneg, Cymraeg, mathemateg a gwyddoniaeth wedi amrywio o'r 25% isaf i'r 25% uchaf o'i gymharu â chanlyniadau ysgolion tebyg dros y blynyddoedd diwethaf.

Yn gyffredinol, mae canran y disgyblion a gyflawnodd lefel 5 neu uwch wedi bod yn anwastad ac yn aml yn is na chymedr y teulu o ysgolion a Chymru dros y pum mlynedd ddiwethaf. Nid oes patrwm amlwg ym mherfformiad y bechgyn a'r merched dros amser.

## Atodiad 2

### Adroddiad boddhad rhanddeiliaid

### Ymatebion disgyblion

Ymatebodd 56 o ddisgyblion i'r holiadur.  Mae'r ymateb yn gadarnhaol iawn, gyda phawb yn cytuno gyda dros hanner y datganiadau.  Mae bron pawb yn cytuno bod yr ysgol yn delio'n dda ag unrhyw fwlio a bron pawb yn gwybod gyda phwy i siarad os ydynt yn poeni neu'n gofidio.  Mae 34% o'r disgyblion yn anghytuno bod plant eraill yn ymddwyn yn dda a 14% yn anghytuno fod bron pob un o'r plant yn ymddwyn yn dda amser chwarae ac amser cinio.  Mae pawb yn cytuno bod yr ysgol yn eu cefnogi a'u cynorthwyo'n dda, ac yn eu dysgu sut i aros yn iach.  Mae disgyblion i gyd yn dweud eu bod yn teimlo'n ddiogel yn yr ysgol, a'u bod yn gwneud yn dda.  Yn gyffredinol, mae'r ymateb yn fwy cadarnhaol na'r cyfartaledd ar draws Cymru.

### Ymatebion rhieni

Derbyniwyd ymatebion oddi wrth 27 o rieni.  Mae'r atebion yn llawer mwy cadarnhaol na'r cyfartaledd ar draws Cymru.  Mae pawb yn cytuno bod eu plant yn ddiogel yn yr ysgol a bod eu plant yn hoffi'r ysgol.  Mae bron pob un ohonynt yn fodlon gyda'r ysgol yn gyffredinol ac yn dweud bod eu plant yn hoffi'r ysgol.  Dywed y rhan fwyaf fod yr ysgol yn rhoi arweiniad da a chefnogaeth gadarn i'w plant, a bod gan y staff ddisgwyliadau uchel.  Barn y rhan fwyaf o rieni yw bod yr ysgol yn cael ei rhedeg yn dda, a bod eu plant yn cael eu hannog i fod yn iach a gwneud ymarfer corff.  Maent hefyd yn deall trefn yr ysgol ar gyfer delio â chwynion.

## Atodiad 3

### Y tîm arolygu

| | |
|---|---|
| David Gareth Evans | Arolygydd Cofnodol |
| Eleri Hurley | Arolygydd Tîm |
| Glenda Jones | Arolygydd Lleyg |
| Jano Owen | Arolygydd Cymheiriaid |
| Simon Lewis | Enwebai'r Ysgol |

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.gov.uk)

O dan Reoliadau Safonau Ysgolion Annibynnol (Cymru) 2003, rhaid i'r ysgol ddarparu copïau o'r adroddiad i holl rieni'r ysgol. Lle mae disgybl yn cael ei leoli yno gan awdurdod lleol, dylai'r ysgol anfon copi o'r adroddiad at bob awdurdod perthnasol.

**Grwpiau blwyddyn a chyfnodau allweddol**

Mae ysgolion yn defnyddio system gyffredin o rifo grwpiau blwyddyn o ddechrau addysg ysgol orfodol i 18 oed. Mae'r system hon yn pwysleisio pwysigrwydd parhad ac yn hwyluso cyfathrebu ymhlith ysgolion, cyrff llywodraethol, rhieni ac AALlau.

Mae'r term 'Derbyn' (CSD) yn cyfeirio at grŵp blwyddyn o ddisgyblion mewn ysgol gynradd sy'n cyrraedd 5 oed yn ystod y flwyddyn academaidd. Mae CS Blwyddyn 1 yn cyfeirio at y grŵp blwyddyn o ddisgyblion sy'n cyrraedd 6 oed yn ystod y flwyddyn academaidd, ac ati. Blwyddyn 13 yw'r grŵp o fyfyrwyr sy'n cyrraedd 18 oed yn ystod y flwyddyn academaidd.

Cyfnod cynradd:

| Blwyddyn | CSD | CSB1 | CSB2 | B3 | B4 | B5 | B6 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 4-5 | 5-6 | 6-7 | 7-8 | 8-9 | 9-10 | 10-11 |

Cyfnod uwchradd:

| Blwyddyn | B7 | B8 | B9 | B10 | B11 | B12 | B13 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 11-12 | 12-13 | 13-14 | 14-15 | 15-16 | 16-17 | 17-18 |

Mae'r pedwar cyfnod allweddol yn cwmpasu'r grwpiau blwyddyn canlynol:

| | |
|---|---|
| Cyfnod Sylfaen | Dosbarth Derbyn, Blwyddyn 1 a Blwyddyn 2 |
| Cyfnod allweddol 2 | Blwyddyn 3 i Flwyddyn 6 |
| Cyfnod allweddol 3 | Blwyddyn 7 i Flwyddyn 9 |
| Cyfnod allweddol 4 | Blwyddyn 10 a Blwyddyn 11 |

# Rhestr termau – Cynradd

**Cwricwlwm Cenedlaethol**

**Lefelau disgwyliedig y Cwricwlwm Cenedlaethol**

- Erbyn diwedd cyfnod allweddol 1, yn saith oed, disgwylir i ddysgwyr gyrraedd lefel 2 a disgwylir i'r rhai mwy galluog gyrraedd lefel 3.
- Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, yn un ar ddeg oed, disgwylir i ddysgwyr gyrraedd lefel 4 a disgwylir i'r rhai mwy galluog gyrraedd lefel 5.

**Y dangosydd pwnc craidd ym mhob cyfnod allweddol**

Mae'r dangosydd pwnc craidd yn ymwneud â'r perfformiad disgwyliedig mewn Cymraeg neu Saesneg iaith gyntaf, mathemateg a gwyddoniaeth, sef pynciau craidd y Cwricwlwm Cenedlaethol. Rhaid i ddysgwyr gyrraedd y lefel ddisgwyliedig o leiaf mewn Cymraeg neu Saesneg iaith gyntaf ynghyd â mathemateg a gwyddoniaeth er mwyn cyflawni'r dangosydd pwnc craidd.

**Setiau Data Craidd Cymru Gyfan**

Gall ysgolion ac awdurdodau lleol gyfeirio at berfformiad o gymharu â'u teulu o ysgolion. Crëwyd y teuluoedd hyn o ysgolion i alluogi ysgolion i gymharu'u perfformiad ag ysgolion tebyg ar hyd a lled Cymru. Mae teuluoedd yn cynnwys ysgolion â chyfrannau tebyg o ddisgyblion â hawl i gael prydau ysgol am ddim, disgyblion sy'n byw yn 20% o'r ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru, disgyblion sydd ag anghenion addysgol arbennig yn cael cymorth drwy'r cynllun gweithredu gan yr ysgol a mwy neu â datganiad, a disgyblion sy'n llai na chymwys o ran dysgu Saesneg fel iaith ychwanegol.